SEFYDLIAD bevan FOUNDATION

# PECYN GWYBODAETH

# YMDDIRIEDOLWYR

## Gwybodaeth am Sefydliad Bevan

Sefydliad Bevan ydy melin drafod fwyaf dylanwadol Cymru. Rydyn ni'n creu syniadau a mewnwelediadau er mwyn roi diwedd ar dlodi, anghydraddoldeb ac anghyfiawnder yng Nghymru. Rydyn ni'n creu newid real a pharhaol drwy hysbysu, ysbrydoli a herio gwneuthurwyr penderfyniadau i weithredu camau i wella bywydau pobl.

Elusen gofrestredig ydy'r Sefydliad, yn annibynnol o unrhyw blaid neu farn wleidyddol. Cawn ein hariannu gan ymddiriedolaethau elusennol, rhoddion a thanysgrifiadau a gan weithgaredd ein busnes cymdeithasol gwleidyddol.

### Yr hyn a wnawn

Mae Sefydliad Bevan yn llunio ei fewnwelediadau a'i syniadau drwy ymchwil uchel ei ansawdd a dadansoddi. Rydyn ni'n gwrando ar bobl â phrofiad bywyd o faterion, yn ymgysylltu â phobl sy'n cydweithio gyda nhw a dadansoddi data o bob math yn cynnwys comisiynu arolygon da eu hansawdd.

Rydyn ni'n ymfalchïo ein bod yn cynhyrchu allbwn deniadol, yn ymestyn o ysgrifennu adroddiadau ymchwil, erthyglau a briffiadau i drefnu gweminarau, a chynnig cyflwyniadau a hyfforddiant.

Rydyn ni'n cynnig gwybodaeth, yn dylanwadu ac yn symbylu newid drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid a gwneuthurwyr penderfyniadau. Rydyn ni'n deall yr amgylchfyd o ran polisi cyhoeddus ac yn cyfrannu'n adeiladol i lunio polisïau.

O ganlyniad i'n dull o fynd ati, mae gan Sefydliad Bevan hanes nodedig o'n canfyddiadau a'n hargymhellion yn ysgogi newidiadau mewn polisïau ac arferion cyhoeddus gan gynnwys:

- Profi bod prydau ysgol am ddim ar gyfer holl blant cynradd yn fforddiadwy.
- Annog Llywodraeth Cymru i gynyddu Lwfans Cynhaliaeth Addysg o £10 yr wythnos.
- Ei gwneud hi'n haws i dros 60,000 o aelwydydd dderbyn cymorth gyda Threth Gyngor, gan roi hyd at £67m nôl ym mhocedi teuluoedd isel eu hincwm ar draws Cymru.

## Gwybodaeth am y rôl hon

Rydyn ni'n chwilio am ymddiriedolwyr newydd i ymuno â'n bwrdd i lenwi swyddi gwag.

Pedair blynedd ydy tymor arferol swydd ymddiriedolwyr, gyda'r posibilrwydd o bedair blynedd arall ar ôl hynny.

Dydy ymddiriedolwyr ddim yn derbyn tâl, er y gellir hawlio costau teithio rhesymol.

## Amdanoch chi

Rydyn ni'n chwilio am bobl sy'n frwd dros wella bywydau pobl Cymru, ac sy'n awyddus i wneud gwahaniaeth drwy gynnig mewnwelediadau sy'n helpu i newid polisi ac arferion.

Daw ymddiriedolwyr o bob haen o'r gymdeithas – does dim gofyn am gymwysterau penodol na phrofiad. Fod bynnag, croesewir yn arbennig ceisiadau gan bobl â **phrofiad o godi arian** neu **brofiad o uwch arweinyddiaeth** a bobl sydd yn **rhugl yn y Gymraeg**.

Rydyn ni'n awyddus i'n bwrdd adlewyrchu lled ac amrywiaeth poblogaeth Cymru. Rydyn ni'n croesawu ceisiadau gan bawb ond hoffen ni yn arbennig glywed gan bobl iau, pobl o gefndiroedd ethnig amrywiol, a phobl o ogledd a gorllewin Cymru. Hoffen ni hefyd dderbyn ceisiadau gan bobl sydd yn gweithio mewn rolau rheng flaen gyda phobl isel eu hincwm.

Peidiwch â phoeni os nad oes gennych brofiad blaenorol o fod yn ymddiriedolwr neu'n aelod o fwrdd. Byddwn yn cynnig cymorth ac hyfforddiant i'ch helpu i ymgymryd â'r rôl, a hefyd, rydyn ni'n anelu i bartneru gyda rhaglenni hyfforddiant bwrdd allanol.

## Disgrifiad o'r rôl

Mae'r ymddiriedolwyr yn atebol am holl agweddau o weithgareddau Sefydliad Bevan. Byddwch yn cyfrannu at y canlynol:

- Llywio darpar gyfeiriad strategol Sefydliad Bevan.
- Sicrhau bod gan y Sefydliad yr adnoddau priodol i gyflenwi ei amcanion, gan gynnwys ei gyllid a'i bobl.
- Datblygu polisïau priodol i lunio'i weithrediad.
- Amlhau ei fuddion cyhoeddus a'i ddylanwad i'r eithaf.
- Diogelu ei enw da.
- Sicrhau bod yr elusen yn cydymffurfio â'i holl ddyletswyddau a'i oblygiadau cyfreithiol.
- Gweithio i'r safonau moesegol uchaf.

### Beth mae'n ei olygu?

Mae bod yn ymddiriedolwr yn golygu gwahanol weithgareddau.

**Mynychu cyfarfodydd y bwrdd**: Bydd angen i chi fynychu cyfarfodydd y bwrdd a chymryd rhan ynddyn nhw. Cynhelir y cyfarfodydd hyn bedair gwaith y flwyddyn, gyda chyfarfodydd ychwanegol wedi'u trefnu weithiau mewn rhai amgylchiadau. Bydd rhaid i chi ddarllen papurau a anfonir atoch chi cyn y cyfarfod, a defnyddio'ch sgiliau a'ch profiad i gynnig sylwadau arnyn nhw a dod i benderfyniadau.

**Ymateb i geisiadau ad hoc**: Efallai byddwn ni'n gofyn am eich barn ar fater sy'n gofyn am sylwadau neu benderfyniad gan ymddiriedolwyr rhwng cyfarfodydd, felly bydd angen i chi allu cynnig sylwadau ac ymatebion.

**Cyfrannu at ein gwaith ehangach**: Weithiau, gofynnwn i chi gyfrannu eich sgiliau a'ch profiad tu allan i gyfarfodydd ffurfiol y bwrdd, boed hynny drwy grwpiau gorchwyl a gorffen a sefydlir gan y Bwrdd neu drwy rannu eich arbenigedd gyda thîm y staff.

**Rhwydweithio a bod yn eiriolwr** : Mae ein hymddiriedolwyr yn helpu i ledaenu gwybodaeth am Sefydliad Bevan ac annog pobl eraill i'n cefnogi a'n cynorthwyo. Gallai hyn gynnwys mynychu digwyddiadau ar ein rhan, egluro'r hyn a wnawn i gydweithwyr a ffrindiau, neu ein dilyn ni ar y cyfryngau cymdeithasol a rhannu ein cynnwys.

### Gwiriadau cyn cychwyn

Mae gwiriadau Sefydliad Bevan cyn cychwyn yn ofynnol yn ôl y gyfraith, er mwyn sicrhau bod y bobl briodol yn cael eu recriwtio ac i'ch cynorthwyo yn y gwaith. Rydyn ni wedi ymrwymo i ddiogelu ymddygiad ac i hyrwyddo lles plant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed. Rhaid i bob ymgeisydd fod yn fodlon i gael eu gwirio yn briodol i'r swydd. Rydyn ni'n disgwyl i bob ymddiriedolwr rannu'r ymrwymiad hwn a chynnal safonau uchaf ymddygiad proffesiynol ac integriti.
Mae'r gwiriadau yn cynnwys:

- Asesiadau o ymgeiswyr ar y rhestr y fer
- Gwiriad sylfaenol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd
- Gwiriad i sefydlu a ydych chi wedi'ch gwahardd rhag bod yn gyfarwyddwr cwmni
- Gwiriad ar gyfer ansolfedd

## Sut i wneud cais

Er mwyn gwneud cais, anfonwch c.v. ynghyd â llythyr eglurhaol yn esbonio pam bod diddordeb gyda chi yn y rôl a'r hyn gallwch ei gynnig i ni. Bydden ni wrth ein bodd i drafod y rôl yn anffurfiol gyda chi os oes gennych unrhyw gwestiynau. Croesewir ceisiadau drwy gyfrwng y Gymraeg ond dylid nodi y bydd unrhyw gais yn cael ei gyfieithu i'r Saesneg i rannu gyda rhai aelodai o'r panel recriwtio.

Anfonwch eich c.v. a'r llythyr eglurhaol ar e-bost i info@bevanfoundation.org – rhowch **Trustee Role/ Rôl Ymddiriedolwr** ar y llinell destun. Dylid anfon unrhyw ymholiadau anffurfiol i'r cyfeiriad hwn hefyd.

Does dim dyddiad cau. Yn hytrach, byddwn yn adolygu a gwahodd ymgeiswyr addas i fynychu cyfweliad yn ôl y galw. Fodd bynnag, os oes gennych ddiddordeb, gorau po gyntaf y rhowch wybod i ni.

Os cewch eich dewis ar ôl cael cyfweliad, cewch eich cyfethol fel Ymddiriedolwr gan weddill y bwrdd ac yna cymeradwyir eich penodiad am dymor o bedair blynedd yn ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ym mis Tachwedd.

### Sylwer

Rôl wirfoddol ydy bod yn Ymddiriedolwr a felly'n rôl ddi-dâl. Gallwn, fodd bynnag ad-dalu costau teithio rhesymol a chostau cynhaliaeth a eir iddyn nhw ar ein rhan, yn unol â'n polisi ar dreuliau.

Gan fod Ymddiriedolwyr hefyd yn gyfarwyddwyr cwmni, bydd angen i chi ddod yn aelod o'r cwmni a pharhau'n aelod yn ystod eich cyfnod fel ymddiriedolwr yn unol â rheolau ein Memorandwm Cymdeithasiad. Mae hyn yn golygu cyfrannu lleiafswm o £50 y flwyddyn / £4.75 y mis i'r Sefydliad.

Sefydliad annibynnol a di-duedd yn wleidyddol ydy Sefydliad Bevan. Disgwyliwn i holl aelodau'r staff a'r ymddiriedolwyr lynu at egwyddor o ddidueddrwydd wrth weithredu eu dyletswyddau.

*5 Mawrth 2026*